

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 24 Chwefror 2020
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, K Hughes **KH**, L Jones **LJ**, OG Roberts **OGR**, JA Roberts
cadeirydd, EAB Thomas **EABT**, RW Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: AI, CJ, EJ, VO.

2. Datgan Diddordeb: Dim

3. Arwyddo cofnodion Ionawr 2020

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir. **EABT** yn cynnig, **BH** yn eilio.

4. Materion sy'n codi.

4.1 **JG** wedi gwneud ymholiadau gyda **CSYM**, a maent yn mynd i edrych ar y polyn sy'n agos i'r lon ar lon
Dalar.


4.2 Cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn gan **CSYM** ynglyn a'r broblem gor yrru ar lon Dalar mewn ac allan
o'r pentref a llifogydd ar y lon.

5. **Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.** Dim
ceisiadau.

6. Gohebiaeth i'w adolygu.

6.1 Derbyniwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth gan **CSYM** ynglyn a ffioedd claddu plant. Pan yn berth-
nasol, bydd **CSYM** yn trefnu taliad gan **LLywodrateh Cymru** a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer gardd gof-
fa i blant, neu unrhyw waith cynnal a chadw yn y fynwent. Y clerc i wneud ymholiad i'r swm.

6.2 Ebost gan Mr Alun Foulkes yn cynnig ei wasanaeth archwilio mewnol. Y clerc i ysgrifennu i dderbyn y
cynnig, ac egluro'r amodau.



Cyngor Cymuned Bodedern



7. Taliadau i'w gwneud- Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)

Un Llais Cymru Aelodaeth 2020-21 £167.00 Rhif sic 200091

8. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

8.1 Un mynegiant o ddiddordeb wedi ei dderbyn ar gyfer y sedd wag. Y clerch i gadarnhau os yw'r cyfeiriad o fewn ffin y plwyf, a chadarnhau ei bod yn gymwys.

8.2 Wal y fynwent wedi syrthio i lawr mewn un lle, ond gwaith adfeirio wedi cychwyn i'w gwneud yn saff, ac i'w thrin. Y clerch i ofyn i'r cwmni pa bryd fydd y cerrig dros ben yn cael eu symud o'r cae.


8.3 Mynegwyd pryder unwaith eto am gyflwr y lonnydd mewn sawl man yn y pentref, yn cynnwys ger yr hen ysgol, ysgol uwchradd, Maes Llwyn a'r lon gefn. Y clerch i ysgrifennu i CSYM yn mynegi pryder, a cheisio rhoi pwysau i'w trin cyn gynted ac bo modd.

8.4 Y **cadeirydd** yn mynegi pryder ynglyn a'r amser disgwl ar y ffon wrth gysylltu a CSYM. Er disgwyl 59 munud, ni atebwyd y galwad a bu rhaid cychwyn eto. **KH** yn mynd i basio'r cwyn ymlaen.

8.5 **KH** yn hysbysu fod cynllyn "Timau Adnoddau Cymunedol Mon" yn darparu gwasanaeth fydd yn ceisio gwella mynediad at ofal ansawdd uchel, wrth gyd weithio a adran iechyd, timau gwirfiddoli ayyb. Bydd timau wedi eu lleoli yng Nghaergybi, Llanfairpwll ac Amlwch. Ar hyn o bryd mae'n cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru.

9. Dyddiad cyfarfod nesaf.

23 Mawrth 2020.



Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol / mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com